

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 31 Ionawr
2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 6 CHWEFWR 2014 am 9.30 am yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2014 (copy ynghlwm).

5 GWASANAETH EFFEITHLONRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GWE) (Tudalennau 13 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm) i roi manylion y cynnydd a waned yn dilyn sefydlu'r RSEIS.

6 Y CYNLLUN MAWR - Y DIWEDDARAF AM BERFFORMIAD (Tudalennau 45 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Gwyddog Perfformiad a Cynllunio (copi ynghlwm) ar gyfer aelodau nodi perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd y (LSB) o ran cyflawni ei chynllun strategol integredig.

~~~~~ **BREAK 10.40 a.m. – 10.50 a.m.** ~~~~~

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL CANOLFAN GOMISIYNU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 79 - 108)

Ystried adroddiad gan y Rheolwr Canolbwynt Comisiynu (copi ynghlwm) i roi manylion y cynnydd hyd yma â sefydlu a rhedeg y Ganolfan a'r manteision gwireddu hyd yma ers ei sefydlu. Hefyd fanylion yr ymarfer cwmpasu ar leoliadau dementia cost uchel.

**8 AIL GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD AR GYFER Y PROSRECT GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU (NWRWTP)** (Tudalennau 109 - 188)

Ystried adroddiad gan y Rheolwr Prosiect (NE Hub) (copi ynghlwm) er mwyn l'r Aelodau nodi'r broses sy'n ymwneud â dyfarnu statws "ffafrio Cynigydd" a materion yn ymwneud cymeradwyo Cytundeb Rhyng Awdurdod 2.

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 189 - 208)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglan gwaith l'r dyfodol y pwyllgor a diweddarau'r aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHOLWYR PWYLLGOR**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr Pwyllgor sy'n aelodau o Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

Jeanette Chamberlain-Jones  
William Cowie  
Ann Davies  
Meirick Davies  
Alice Jones  
Pat Jones

Margaret McCarroll  
Dewi Owens  
Merfyn Parry  
Bill Tasker  
Joe Welch

#### **Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Gill Greenland  
Debra Houghton  
Nicola Lewis  
Dr D Marjoram  
Gareth Williams

#### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2013 am 9.30 am.

### YN GRESENNOL

Y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Bill Cowie, Ann Davies, Margaret McCarroll, Merfyn Parry a Bill Tasker.

**Aelodau Arweiniol:** Roedd y Cyngorwyr Bobby Feeley a Hugh Carson Irving yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (SE), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Uwch Swyddog, Strategaeth a Phartneriaethau (SL), Rheolwr Prosiect (CO), Uwch Swyddog, Opsiynau Tai (SC), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Meirick Davies, Alice Jones, Pat Jones a Dewi Owens

#### 2 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Meirick Davies, Alice Jones, Pat Jones a/ac Dewi Owens

#### 3 ETHOL IS-GADEIRYDD

Gan na chafodd unrhyw CV ei gyflwyno ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd, cytunwyd i ohirio penodiad hyd nes cyfarfod yn y dyfodol.

#### 4 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganwyd cysylltiad personol gan:

- (i) Y Cyngorwydd Jeanette Chamberlain Jones ynghylch Eitem 8 - Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a'r
- (ii) Cyngorwydd Bill Tasker ynghylch Eitem 7 –Fframwaith ar gyfer Darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth.

## 5 **MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 6 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2013.

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio fod ymateb diweddariad gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasgoed wedi'i gynnwys yn y ddogfen Briff Gwybodaeth (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

**PENDERFYNWYD** –*yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2013 fel cofnod cywir.*

Yn y fan hon, cytunodd y Cadeirydd i newid trefn y busnes a nodir yn y Rhaglen. Byddai'r eitemau'n cael eu clywed yn y drefn ganlynol:

8. Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
7. Fframwaith ar gyfer Darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth
- 6 Un Llwybr Mynediad at Dai – Polisi Dyrannu Cyffredin (CAP)

## 7 **GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am farn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y cynllun i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru, gyda chefnogaeth Cydweithrediaethau Mabwysiadu Rhanbarthol. Hefyd, ceisiodd y Cynghorydd Feeley gefnogaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam barhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (PGPaTh) bwyntiau o fewn yr adroddiad. Rhoddodd y PGPaTh sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio y byddai swyddogaethau statudol y Cyngor mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Mabwysiadu'n cael eu diwallu'n llawn, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau.

Roedd creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn un o feysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru, ac mae'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 25 Ebrill 2013.

Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) Cymru, wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gynhyrchu model gweithredol ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ledled Cymru drwy gydweithrediaethau gweithredol rhanbarthol. Roedd y model gweithredol yn cynnig y pump Cydweithrediaeth Fabwysiadu Ranbarthol canlynol:

- Gogledd Cymru - Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych ac Ynys Môn;
- De Ddwyrain Cymru - Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a Chaerffili;
- Gorllewin a Chanolbarth Cymru - Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys;
- Bae'r Gorllewin – Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; a
- Chanolbarth a De Cymru - Caerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Y bwriad yw y bydd pob un o'r pump Cydweithrediaeth Ranbarthol yn cael ei sefydlu erbyn mis Ebrill 2014.

Bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu hefyd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCGC Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Cymdeithas Prydain dros Fabwysiadu a Maethu (BAAF), Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a phob un o'r pump Cydweithrediaeth Ranbarthol i gynhyrchu rhaglen newid gadarn ar gyfer gweithredu'r model gweithredol.

Dylai'r model gwasanaeth cenedlaethol gael ei fonitro i sicrhau nad yw costau'n cynyddu o'r lefel bresennol o wariant net. Dylai unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o weinyddu a chynnal y trefniadau newydd gael eu dosbarthu'n briodol rhwng yr awdurdodau sy'n cymryd rhan.

Cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol ar bolisiâu a gweithdrefnau mabwysiadu a:

***PHENDERFYNWYD*** – bod y Pwyllgor yn:-

- (i) cefnogi'r cynigion ar gyfer cyflawni Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru fel y nodwyd yn adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) Cymru.*
- (ii) cefnogi'r cynnig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam barhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.*

## **8 FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG AR GYFER POBL HŶN AG ANGHENION CYMHLETH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i

hysbysu'r Aelodau am fwriadau Llywodraeth Cymru (LIC) i sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth.

Cafwyd trafodaeth fanwl a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor y cynigion a amlinellir yn y Datganiad o Fwriad drafft. Yn benodol, y cynigion i archwilio dewisiadau rhanbarthol ar gyfer:
  - Gwell llywodraethu
  - Strategaethau comisiynu ar y cyd
  - Cyllidebau cyfun
  - Tîmau wedi'u cyd-leoli
  - System rhannu gwybodaeth
  - Gwasanaethau cyfeirio at y dinesydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
  - Un Pwynt Mynediad yn y sir.
- Cydnabu'r Pwyllgor fod nifer o opsiynau yn y broses o gael eu datblygu yn Sir Ddinbych.
- Teimlai'r Aelodau y gall datblygu gwasanaethau integredig rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol arwain at gydlynu gofal yn well a gwell dilyniant o ran gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
- Byddai system atgyfeirio a chyfathrebu mwy syml a chyson, yn ei dro, yn darparu mynediad gwell a haws i wasanaethau.
- Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod yr hinsawdd ariannol bresennol y mae Llywodraeth Leol a'r Gwasanaethau Iechyd yn gweithredu ynddi, ynghyd ag ansicrwydd strwythur staffio o fewn y Bwrdd Iechyd a'r ansicrwydd o amgylch strwythurau Llywodraeth Leol yn y dyfodol yng Nghymru, yn peri risg i'r weledigaeth a amlinellir yn y Datganiad o Fwriad, mae'r egwyddorion yn cael eu canmol. O ganlyniad, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod digon o adnoddau dynol ac ariannol ar gael i ddarparu'r gwasanaethau didor/integredig a amlinellir yn y Datganiad o Fwriad er budd trigolion lleol.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cabinet ei fod yn cefnogi cynnwys y Datganiad o Fwriad ar Ofal Integredig ar gyfer Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth a luniwyd rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a BIPBC, i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylai'r arferion gwaith integredig a amlinellir yn y Datganiad o Fwriad ynghyd â'r defnydd o sgiliau cyfunol, gwybodaeth, profiad ac adnoddau gyflawni gwell canlyniadau i bobl hŷn a chyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor o sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd.

**Ar y pwynt hwn (10.45 a.m.) cafwyd egwyl o chwarter awr. Ailddechreuodd y cyfarfod am 11:00am.**



Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau'r adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch manylion y Polisi Dyrannu Cyffredin diwygiedig (CAP) ar ôl ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad CAP, ymchwil a barn gyfreithiol. Cytunwyd ar y CAP gan y Grŵp Llywio ULIMAD (Un Llwybr Mynediad at Dai) a byddai'n cael ei gyflwyno i Bwyllgorau/Byrddau'r sefydliadau partner.

Hefyd gofynnodd y Cyngorydd Irving am gefnogaeth gan yr Aelodau i barhau â'r prosiect a gweithredu'r CAP yn lleol o ddiwedd 2014.

Yn dilyn trafodaeth ddwys codwyd y materion canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor y ffaith y byddai'r Polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol.
- Croesawodd yr Aelodau'r eglurder ar y diffiniad o'r cysylltiad lleol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon mewn perthynas â phwysau posibl yn y dyfodol ar gyllidebau gofal cymdeithasol os yw cyfradd anghymesur o uchel o denantiaid oedrannus/anabl o'r tu allan i'r sir yn cael mynediad i lety pensiynwyr/tai gwarchod yn y sir ar sail cysylltiad teulu/cyswllt cefnogi. Teimlai'r Pwyllgor fod tueddiadau angen eu monitro'n agos er mwyn nodi pwysau posibl.
- Cymeradwyodd yr Aelodau'r "Egwyddorion Arweiniol" fel yr amlinellir yn y CAP drafft. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn awyddus i bryderon a godwyd mewn perthynas â diffyg ymrwymiad rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) i gynnal a chadw eiddo, a oedd wedi arwain at rai ardaloedd o'r sir yn dioddef gan dai o ansawdd gwael, gael ei nodi. Er bod yr Aelodau'n cydnabod y gallai'r rhan fwyaf o bryderon gael sylw drwy ddarpariaethau'r Mesur Tai newydd, gofynnodd y Pwyllgor i bob ymdrech gael ei wneud trwy Grŵp Llywio'r Polisi i sicrhau bod yr holl LCC sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych yn mynd ati i gynnal eu heiddo i'r safonau gofynnol ac yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) er mwyn diogelu tenantiaid.
- Gofynnodd y Pwyllgor i fanylion pob ymgynghoriad a oedd wedi digwydd o fewn Sir Ddinbych (yn enwedig yn ystod 2013) gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid gael eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet.
- Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r adroddiad i'r Cabinet gynnwys manylion cyfraniad ariannol pob partner tuag at y prosiect datrysiad TG i gefnogi'r Polisi a bod y prosiect TG yn cael ei deilwra i gadw o fewn y dyraniad cyllideb ac yn cael ei werthuso'n llawn a'i gyflwyno i aelodau cyn ei brynu.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar y sylwadau a godwyd, bod y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion y Polisi Dyraniadau Cyffredin drafft. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd bod y Cabinet yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi i'w roi ar waith yn Sir Ddinbych. Dylai'r Polisi sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu trwy ddull teg a chyson i bobl o fewn ein cymunedau yn ôl eu hanghenion tai.

## **10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a gafodd ei ddsbarthu'n flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor a darparu

diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd fersiwn drafft o'r rhaglen gwaith i'r dyfodol (Atodiad 1); Ffurflen Gynigion ar gyfer Eitemau ar Raglen y Pwyllgorau Archwilio (Atodiad 2); Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet (Atodiad 3); Cynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 4) a Rhestr o Gynrychiolwyr y Pwyllgor Archwilio ar Grwpiau Herio'r Gwasanaeth (Atodiad 5) ynghlwm â'r adroddiad hwn.

Dywedodd y Cydlynnydd Archwilio am newidiadau i'r rhaglen waith ac amryw o faterion sydd angen sylw -

- Gofyn am ddiweddariad ar Ddatganiad o Fwriad gan BIPBC a gofyn iddynt fynychu'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i gael ei ychwanegu at Raglen 6 Chwefror 2014
- Tynnu Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig oddi ar Raglen 6 Chwefror 2014 a'i ychwanegu at Raglen 13 Mawrth 2014
- Gwahodd pob Aelod Arweiniol i fynychu'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 6 Chwefror 2014.
- Gofynnwyd am gynrychiolaeth o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones ar gyfer Cynllunio Busnes a Pherfformiad a'r Cynghorydd Merfyn Parry ar gyfer Priffyrdd.
- Roedd y Cynghorydd Dewi Owens wedi cynnig a chafodd ei enwebu i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol
- Gwahodd y Cynghorydd Huw Jones i fynychu'r cyfarfod ar 13 Mawrth fel Aelod Arweiniol ar gyfer eitem Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).
- Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones i gyfarfodydd yn y dyfodol gael eu cynnal yn y Rhyl a Dinbych, yn ogystal â Rhuthun.

## **PENDERFYNWYD**

- (i) Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r rhaglen waith fel y manylir yn Atodiad 1 gyda'r adroddiad;*
- (ii) Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i gael ei phenodi fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Herio Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad, a'r Cynghorydd Merfyn Parry i wasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Herio Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd, a'r*
- (iii) Cynghorydd Dewi Owens i gael ei benodi fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol*

## **11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Rhoddodd y Cynghorydd Ann Davies ddiweddariad byr i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod diweddar y Grŵp Llywio Gofalwyr a fynychodd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.40p.m.**



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                 |                                                                       |
|---------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>                              |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>6 Chwefror 2014</b>                                                |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol dros Addysg/Pennaeth Addysg/Prif Swyddog GwE</b>   |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Pennaeth Addysg/Prif Swyddog GwE</b>                               |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)</b> |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Y cynnydd a gyflawnwyd ar ôl sefydlu'r Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Darparu gwybodaeth am y cynnydd a wnaed yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth newydd ac ystyried y cynnydd hwnnw er mwyn:

- Nodi'r manteision a gafodd eu gwireddu hyd yn hyn gan ei sefydlu er mwyn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth Gwasanaeth.
- Nodi problemau a gafwyd sydd eto i'w datrys er mwyn sicrhau bod y risg i gyflwyno Gwasanaeth yn cael ei liniaru'n llwyddiannus eto.
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw gynigion i ehangu'r Gwasanaeth.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 ystyried y wybodaeth a ddarperir a sylwadau ar y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma yn dilyn sefydlu Gwe o ran y canlynol:

- Effeithiolrwydd Gwe wrth gyflwyno arbedion maint a chefnogaeth arbenigol i ategu Gwasanaeth Addysg y Sir.
- Nodi llithrianau, risgiau, bylchau yn y gwasanaeth neu bwysau yn y dyfodol o ran argymell camau gweithredu lliniarol.

## **4. Manylion am yr Adroddiad**

4.1 Cyflwynodd Prif Swyddog GwE adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Tachwedd 2013. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y cynnydd y mae GwE wedi ei wneud hyd yn hyn. (Atodlen 1). Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16 Chwefror ar CA4 a chanlyniadau Ôl-16 2013. (Atodlen 2).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae gwella perfformiad mewn Addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion yn un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer tymor 2012-17. Mae cyflwyno GwE yn effeithiol yn rhan annatod o gyflawni'r flaenoriaeth hon gan fod y Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyniad gweithredol swyddogaethau gwella ysgol craidd, gan weithredu fel gwasanaeth a gomisiynir.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Mae cost hyn wedi ei gytuno drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Pwrpas yr adroddiad yw adolygu ac ystyried y cynnydd a wnaed. Felly, nid yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad mewn ymateb i gynnig. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

- 8.1 Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda Budd-ddeiliaid Allweddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid  
Amherthnasol.**

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1 Mae'r risgiau i enw da a'r risgiau gwleidyddol i'r Awdurdod yn fach iawn, cyn belled â bod GwE yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at y llwybr o welliant parhaus y mae Sir Ddinbych wedi'i sicrhau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- 11.1 Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol ond mae arolygiadau Awdurdodau Lleol yn orfodol.

- 11.2 Mae Erthygl 6.3.2 (f) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall pwyllgorau archwilio sicrhau bod y camau a nodir mewn cynlluniau gweithredu yn cael eu cyflawni.

- 11.3 Mae Erthygl 6.3.3 (ch) yn datgan y gall y pwyllgor archwilio gysylltu â chyrff allanol sy'n gweithredu yn yr ardal, boed yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol, i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu cynyddu drwy gydweithio.

**Swyddog Cyswilt:**

Pennaeth Addysg

Ffôn: 01824 708009



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

### 6 TACHWEDD 2013

---

**Adroddiad gan:** Prif Swyddog GwE

**Pwnc:** Adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol) ac ar ddeilliannau disgyblion yn ysgolion Gogledd Cymru ar sail y data rhanbarthol sydd ar gael.

---

#### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd a datblygiadau GwE ac ar ddeilliannau disgyblion yn ysgolion Gogledd Cymru ar sail y data rhanbarthol sydd ar gael.

#### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu dilyniant i adroddiad y Prif Swyddog (Interim) i'r Cyd-bwyllgor ar 8 Gorffennaf 2013.

2.2 Mae dangosyddion perfformiad y Gwasanaeth wedi eu rhestru yn adran 11.1 yr Achos Busnes Llawn sef:

- D1 Gwell safonau mewn llythrennedd (Cymraeg/Saesneg) a rhifedd (Mathemateg) sy'n cymharu'n dda â'r goreuon mewn gwledydd eraill;
- D2 Un gwasanaeth cydlynol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion ar draws y rhanbarth;
- D3 Defnyddio Arweinyddion System sy'n gweithredu mewn modd cyson, a chanddynt brawf o hanes diweddar o wella ysgolion;
- D4 Yr holl ysgolion yn gallu cael mynediad at ystod llawer ehangach o gefnogaeth arbenigol na'r hyn sydd ar gael mewn Awdurdodau Lleol unigol ar hyn o bryd;
- D5 Dim un Awdurdod Lleol, ysgol na sefydliad dysgu mewn unrhyw gategori Arolygu Estyn sy'n gofyn am welliant sylweddol neu fesurau arbennig.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Dechreuodd y Prif Swyddog newydd ar ei waith ar 1 Medi 2013. Erbyn hyn mae pob swydd Arweinydd System wedi ei llenwi, naill ai yn barhaol neu trwy secondiadau. Un swydd yn unig sydd yn cael ei llenwi dros dro y tymor hwn a bydd honno yn cael ei llenwi yn barhaol o 1 Ionawr 2014.

3.2 Mae rhaglen waith yr Arweinyddion System y tymor hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mynychu sesiwn tîm cyfan (i gynnwys y tîm gweinyddol) ar osod disgwyliadau ar ddechrau tymor newydd - arweiniwyd gan y Prif Swyddog;
- Dehongli data diwedd Cyfnod Allweddol eu hysgolion cyswllt ac ystyried dehongliadau'r ysgolion eu hunain o'r data ac o'r Erfyn Gwerthuso gan ganolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion;
- Mynychu hyfforddiant ar y defnydd o ddata Fischer Family Trust a gwefan FFT-live;
- Mynychu sesiwn briffio ar gyfer Ymweliad 1 gyda swyddogion Timau Cartref yr awdurdodau lleol - arweiniwyd gan y Prif Swyddog;
- Hyfforddiant ar Reoli Perfformiad Penaethiaid gan y Prif Swyddog;
- Cynnal Ymweliad 1 a chyfarfodydd Rheoli Perfformiad yn yr holl ysgolion a pharatoi adroddiadau; ffocws ar ddatblygiadau ers yr ymweliad blaenorol a deilliannau disgyblion;
- Cynnal a threfnu cefnogaeth i ysgolion a dargedwyd;
- Cefnogaeth cyn-arolwg;
- Cefnogaeth ôl-arolwg;
- Cyfarfodydd Tîm isranbarthol;
- Hyfforddiant Estyn ar gyfer Arweinwyr System.

3.3 Yn ogystal mae'r Prif Swyddog, ar gais, wedi cynnal cyfarfodydd, gwneud cyflwyniadau a chynnal hyfforddiant ar ran GwE gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys:

- Grwpiau o Benaethiaid ysgolion
- Cynrychiolydd Estyn yng Ngogledd Cymru
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Aelodau etholedig a phwyllgorau craffu
- Llywodraethwyr ysgolion
- Swyddogion Timau Cartref

3.4 Yn ei adroddiad 8 Gorffennaf, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Interim) at wybodaeth graffigol sy'n dangos categorïau ysgolion y rhanbarth yn dilyn Ymweliad 1 Tymor yr Hydref 2012 (ar sail deilliannau disgyblion) ac y



byddai'r Gwasanaeth yn casglu data yn yr un modd ar ôl Ymweliad 3 (ar sail y gallu i wella). Gweler yr wybodaeth yn Atodiad 1. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod perthynas agos rhwng y farn ar ddeilliannau a'r gallu i wella yn y sector cynradd. Yn y sector uwchradd, mae mwy o waith rhagorol o ran y gallu i wella. Gan fod Ymweliad 1 wedi ei gynnal cyn cyfnod GwE byddwn yn ail-ystyried y casgliadau hyn yn y flwyddyn newydd.

3.5 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 8fed Gorffennaf nodwyd yr angen i gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu mewn ymateb i osod ysgolion mewn categori oren neu goch. Gweler Atodiad 2 am fanylion pellach.

3.6 Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau mewn perthynas â dangosyddion perfformiad D2 a D3 uchod sy'n cyfeirio'n bennaf at sicrhau cysondeb gweithredu ar draws y rhanbarth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith safoni gan Dîm Rheoli GwE, gwaith safoni oddi mewn i hwb unigol, gwaith safoni traws-hwb, safoni sector traws-ranbarth, cysgodi ymweliadau gan y Tîm Rheoli a Thimau Cartref, ymweliadau cysgodi traws-hwb a modelu adroddiadau safonol.

3.7 Llythrennedd a Rhifedd - diweddariad ers yr adroddiad diwethaf: Mae un o Uwch Arweinwyr System GwE yn parhau i weithredu fel prif ddolen gyswllt y rhanbarth efo'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol.

- Mae Partneriaid y Rhaglen Gymorth Genedlaethol eisoes yn cydnabod yr arfer effeithiol sy'n dod i'r amlwg wrth weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Nod y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn awr yw helpu i rannu'r arfer hwn yn fwy eang a bydd yn neilltuo arian i sicrhau bod hynny yn digwydd.
- Bydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn dechrau cefnogi ysgolion arbennig yn ystod ail hanner tymor y flwyddyn ysgol a byddant yn eu hannog i rannu arferion o ran dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys neu luosog, ymhlith ei gilydd a chydag ysgolion prif ffrwd. Bydd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cysylltu'n uniongyrchol ag unedau cyfeirio disgyblion yn barod i'w cefnogi ar yr un adeg.
- Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cynnal cyfres o weithdai ar ddatblygu proffesiynol a'u ffilmio. Bydd fersiynau wedi'u golygu o'r rhain ar gael ddechrau'r tymor nesaf, a bydd dolenni perthnasol i'w cael yng nghylchlythyr Dysg.
- Cyhoeddwyd Rhan Un o Ganllaw'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol cyn yr haf; mae Rhan Dau ar gael erbyn hyn. Mae'r ail ran yn helpu ysgolion i wneud cynlluniau trylwyr ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- Cynhaliwyd cyfres o gyrsiau Dyfal Donc yn ystod y tymor trwy'r cytundeb sefydlwyd rhwng y Consortiwm a 'Catch Up' sy'n sicrhau bod cyfle i ysgolion y rhanbarth cyfan fynychu am bris gostyngol.

3.8 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Atodiad 3): Am y tro cyntaf ym mis Mai 2013 bu disgyblion Blynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion ar draws Cymru yn sefyll profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd. Adroddir y canlyniadau ar sail sgoriau safonol sy'n cymryd oedran y plentyn i ystyriaeth a thrwy hynny gosodir canlyniadau pob un ohonynt ar yr un raddfa. Golyga hyn y gellir cymharu perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn annibynnol o'u hoedran. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn pan fydd y dadansoddiadau rhanbarthol wedi eu cwblhau ond mae'r patrwm cenedlaethol yn cadarnhau bod:

- sgoriau safonol uwch i'w gweld yn gyffredinol mewn o ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd yn y profion darllen Cymraeg a Saesneg.

- mwy o ferched na bechgyn yn cael sgôr safonol dros 115 tra bo mwy o fechgyn na merched yn cael sgôr safonol llai na 85 yn y profion darllen Cymraeg a Saesneg.
- mwy o fechgyn na merched yn cael sgôr mwy na 115 a llai na 85 yn y profion rhifedd.

3.9 Mae Grŵp Defnyddwyr y Gwasanaeth yn parhau i gyfarfod ac yn darparu adborth gwerthfawr a defnyddiol i'r Gwasanaeth. Gellir crynhoi'r prif faterion a drafodwyd fel a ganlyn :

- Darparu adborth ar Ymweliad 3 (tymor yr haf);
- Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd:
  - Y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
  - Rhaglen Dyfal Donc
- Trefniadau Ymweliad 1 (tymor yr hydref);
- Prif flaenoriaethau GwE 2013-14.

3.10 Mae'r cyfarfodydd ymgynghori gydag undebau llafur yn parhau o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Arweiniol y Consortiwm.


3.11 Mae'r Prif Swyddog yn rhan o drafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol o ran datblygu 'Model Cenedlaethol' Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella Ysgolion. Erbyn y bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod ar 6 Tachwedd bydd y Prif Swyddog a'r Cyfarwyddwr Arweiniol wedi mynychu tri allan o'r pum cyfarfod cenedlaethol sydd wedi eu trefnu ar fyr rybudd yng Nghaerdydd cyn diwedd mis Tachwedd.

#### 4.0 Deilliannau Disgyblion 2013

4.1 Mae prosesau coladu a dadansoddi data ar ddeilliannau disgyblion o fewn y rhanbarth yn datblygu. Rhannol yw'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn arbennig yng nghyd-destun deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a chyflawniad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer darparu'r data hwn i awdurdodau ond mae hi wedi llithro.

#### 4.2 Ysgolion Cynradd

Mae asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn dangos bod deilliannau ar ddiwedd y cyfnod Cynradd i blant 11 oed yng Ngogledd Cymru wedi codi yn gyflym ers 2008, gan adlewyrchu'r cynnydd ar draws Cymru.




Gwelir y cynnydd hwn hefyd yng nghanlyniadau **Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth** ar Lefel 4 (y lefel 'ddisgwyliedig'). Yn achos Lefel 5 mae Gogledd Cymru wedi symud o fod islaw ffigurau Cymru gyfan i fod uwchben ffigurau Cymru gyfan dros yr un cyfnod. Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion.

Mae sefyllfa'r **Gymraeg fel Iaith Gyntaf** ar Lefel 4 yn dangos patrwm tra gwahanol. Er bod cynnydd wedi digwydd ers 2008, mae Gogledd Cymru wedi symud o fod uwchben ffigurau Cymru gyfan yn 2008 i fod islaw ffigurau Cymru gyfan yn 2011, 2012 a 2013. Mae'r sefyllfa ar Lefel 5 yn fwy cadarnhaol. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran ar ysgolion Uwchradd isod.

Mae canlyniadau disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (PYD) yn y dangosydd pynciau craidd yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu ers 2008 ond yn 2013 roeddynt yn parhau ychydig yn is na ffigurau Cymru gyfan. Mae canlyniadau disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYD ychydig yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol. Trafodir y mater hwn ymhellach hefyd yn yr adran ar ysgolion Uwchradd isod.


Fel ym mhob achos pan drafodir deilliannau disgyblion yng nghyd-destun asesiadau athrawon, mae cysondeb a dibynadwyedd yr asesiadau yn faes trafod. Mewn adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru cydnabyddir "bod yna resymeg gadarn dros ddatblygu a gwella'r system bresennol o ran asesiadau athrawon a'u cymedroli", ac mae'r Llywodraeth, mewn partneriaeth efo'r awdurdodau a'r consortia rhanbarthol, yn bwriadu gweithredu ar fyrder ar y mater hwn.

#### 4.3 Ysgolion Uwchradd



Mae asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 yn dangos bod deilliannau disgyblion 15 oed yng Ngogledd Cymru wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn y prif ddangosydd sef y **Trothwy Lefel 2+** (TL2+), o 44.6% yn 2008 i oddeutu 54.8% (dros dro) yn 2013. Mae hyn yn gynnydd o 10.2 pwynt canran (pc) sydd yn cymharu â chynnydd o 6.3 pc ar draws Cymru dros yr un cyfnod. Y prif reswm am hyn yw'r cynnydd o 11.4 pc mewn canlyniadau A\*- C mewn Mathemateg o'i gymharu â 7.5 pc ar draws Cymru. Dylid nodi hefyd bod y bwlch rhwng Gogledd Cymru a Chymru wedi agor yn gyflymach yn 2013 ac mai'r momentwm yma sydd angen ei gynnal. Mae perfformiad yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod ac o ysgol i ysgol. Ar gyfer 2013 mae data Prydau Ysgol am Ddim (PYD) yn nodi bod pump allan o'r chwe awdurdod yn y Gogledd yn fwy breintiedig na chyfartaledd Cymru ac felly, ar sail hynny, dylai perfformiad y Gogledd ragori ar weddill Cymru. O'r 55 ysgol uwchradd yn y rhanbarth, roedd 11 ohonynt yn y chwarter uchaf, 16 yn y chwarter canol uwch, 16 yn y chwarter canol is a 12 yn y chwarter isaf ar gyfer y TL2+ yn 2012.

## Ysgolion Uwchradd TL2+ 2012



Er gwaetha'r cynnydd a nodir uchod, mae cyflawniad mewn **Mathemateg** yn parhau yn fater sydd angen sylw ar draws y rhanbarth, gyda chyfran y disgyblion sy'n sicrhau gradd A\* - C yn parhau yn 1.6 pc yn is nag ar gyfer **Saesneg** yn 2012. Yng ngoleuni hyn, ac yn dilyn cyhoeddi adroddiad Estyn ar Arfer Dda mewn Mathemateg yn CA4, bydd GwE yn ceisio penodi dau ymarferwr blaenllaw i arwain y gwaith ar draws y rhanbarth. Bydd hyn ar secondiad o bum tymor.

Mae'r **Gymraeg fel Iaith Gyntaf** yn dangos gostyngiad o 2 pc yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A\* - C rhwng 2008 a 2012, yr unig bwnc craidd lle y gwelwyd gostyngiad. Sefydlog fu'r ffigwr cenedlaethol dros yr un cyfnod. Mae angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn ar draws Cymru, gan nad yw'r garfan o ddisgyblion wedi ei diffinio mor glir ag yn y pynciau craidd eraill. Mae adroddiad diweddar grŵp yr Athro Sioned Davies i Lywodraeth Cymru ar y Gymraeg fel Ail Iaith yn ffactor pwysig yn y drafodaeth hon.

Rhwng 2009 a 2011 gwelwyd cynnydd ym mherfformiad disgyblion **PYD** ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn 0.5 pc yn is na'r cynnydd cenedlaethol cyfatebol a hynny yn bennaf oherwydd perfformiad mewn un awdurdod. Yn 2011 a 2012 roedd pum awdurdod allan o'r chwech yn perfformio uwchben y ffigwr cenedlaethol ond yn rhanbarthol yn 2012 gwelwyd gostyngiad o 2.2 pc ar ffigurau 2011. Yn 2012 mae perfformiad plant PYD un awdurdod 7.2 pc islaw'r ffigwr cenedlaethol. Mae'r awdurdod yn gweithio i hyrwyddo gwell defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar draws ei ysgolion. Nid yw data cymharol ar gyfer 2013 ar gael eto ond mae hon yn flaenoriaeth glir i Lywodraeth Cymru gyda chynnydd sylweddol yn y GAD i ysgolion yn Ebrill 2014.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2012 bu cynnydd cyson yng nghyflawniad disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn PYD yn y TL2+ gan osod y rhanbarth uwchben y ffigwr cenedlaethol am y bedwaredd flwyddyn o'r bron. Bu'r cynnydd hwn o 4.5 pc yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol. O ganlyniad mae'r bwllch perfformiad rhwng y disgyblion hyn a'u cyfoedion sydd yn gymwys i dderbyn PYD yn uwch yn y rhanbarth na'r hyn a welir yn genedlaethol.

Mae'r **bwllch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched** yn y TL2+ yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu i 10.1 pc erbyn 2012. Mae'r bwllch hwn yn uwch na'r ffigwr o 8.6 pc ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn (7.1 pc) yng Ngogledd Cymru ers 2008 yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ( 5.2 pc). Roedd

y cynnydd ym mherfformiad merched yng Ngogledd Cymru dros yr un cyfnod yn 10.2 pc a'r cynnydd cenedlaethol yn 5.9 pc.

## **5.0 Ysgolion Categori Estyn**

5.1 Un o nodau allweddol y Gwasanaeth, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, yw gweithio tuag at sicrhau nad oes yr un 'Awdurdod Lleol, ysgol na sefydliad dysgu mewn unrhyw gategori Arolygu Estyn sy'n gofyn am welliant sylweddol neu fesurau arbennig'

5.2 Ar ddechrau Tymor yr Haf 2013, wrth sefydlu GwE, roedd chwe ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd angen gwelliant sylweddol; a thair ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd mewn mesurau arbennig ar draws y rhanbarth. Erbyn mis Hydref 2013, wrth baratoi'r adroddiad hwn, roedd pedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd angen gwelliant sylweddol; a dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd mewn mesurau arbennig.

## **6.0 Y Dyfodol**

6.1 Mae dyfodol y Gwasanaeth, fel y cyfeiriwyd eisoes, ynghlwm â datblygiad y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion. Mae'r egwyddor, sydd eisoes ar waith yn y Gogledd, o sicrhau bod adnodd y Gwasanaeth yn cael ei dargedu yn unol ag angen yn hytrach na fesul awdurdod, yn un sydd angen glynu'n gadarn wrthi.

6.2 Mae angen i GwE ymateb i'r weledigaeth o'r angen am ddarparu gwasanaeth sydd yn un mwy rhagweithiol. Dylai hyn gynnwys mwy o ffocws ar osod a herio targedau a monitro cynnydd tuag atynt. Mae angen mawr hefyd i ddatblygu'r elfen gefnogol o waith y Gwasanaeth gydag unrhyw adnodd newydd a fydd ar gael, gan gynnwys datblygu cefnogaeth ysgol i ysgol fel blaenoriaeth uchel. Mae cryn oblygiadau yma o ran hyfforddi Arweinwyr System a hyderaf y bydd arweiniad cenedlaethol ar hyn.

6.3 Bydd angen hefyd diwygio'r Erfyn Arwain a Rheoli yn dilyn Ymweliad 1 eleni a bydd hyn yn cael sylw yn ystod y tymor nesaf.

## **7.0 Argymhellion**

7.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor:

7.1.1 nodi cynnwys yr adroddiad ar ddatblygiadau cyfredol GwE a'r prif ddangosyddion perfformiad

7.1.2 cymeradwyo bod y Prif Swyddog yn parhau i gynrychioli GwE ar drafodaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor ar y datblygiadau hynny.

## **8.0 Goblygiadau Ariannol**

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **9.0 Effaith o ran Cydraddoldeb**

9.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## **10.0 Goblygiadau Personél**

10.1 Dau secondiad, ar delerau presennol, o Ionawr 2014 hyd Awst 2015, i arwain ar Fathemateg Cyfnod Allweddol 4 ar draws y rhanbarth. Mae'r penodiadau hyn yn cyd-fynd â gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.



## **11.0 Ymgynghoriadau**

11.1 Dim o ganlyniad uniongyrchol i'r adroddiad hwn



## **12.0 Atodiadau**

- Atodiad 1.1: Perfformiad Cynradd
- Atodiad 1.2: Perfformiad Uwchradd
- Atodiad 2: Cefnogaeth GwE
- Atodiad 3: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
- Atodiad 4: Deilliannau Disgyblion 2013

Atodiad 1.1: Perfformiad Cynradd




Atodiad 1.2: Perfformiad Uwchradd







Atodiad 2: Cefnogaeth GwE


Tudalen 25


















Atodiad 3: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (CA2 2013)





Atodiad 4.1: Canlyniadau Saesneg (CA2 2013)



Atodiad 4.2: Canlyniadau Cymraeg (Iaith Gyntaf) (CA2 2013)





Atodiad 4.3: Canlyniadau Mathemateg (CA2 2013)







Atodiad 4.4: Canlyniadau Gwyddoniaeth (CA2 2013)



Atodiad 4.5: Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim (CA2 2013)



|                                 |                                                                    |
|---------------------------------|--------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>                              |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>16 Ionawr 2014</b>                                              |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Addysg /<br/>Pennaeth Addysg</b>                |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Swyddog Effeithiolrwydd Perfformiad Ysgolion<br/>– Uwchradd</b> |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Canlyniadau Arholiadau CA4</b>                                  |

---

### 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Perfformiad wedi'i ddilysu o ganlyniadau arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau yn erbyn gwybodaeth wedi'i feincnodi a pherfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill.

### 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych.

### 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n adolygu a chyflwyno sylwadau ar berfformiad ysgolion yn erbyn y perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd, a nodi unrhyw feysydd posibl o welliant.

### 4. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol CA4 mewn cymwysterau allanol wedi gwella eleni, mae trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg wedi gwaethygu ychydig sydd wedi cael effaith ar Ddangosydd Pwnc Craidd (CSI).

#### Safle Aseidiadau ac Arholiadau 2011-2013

|                                                    | Sir Ddinbych 2011 |       | Sir Ddinbych 2012 |       | Sir Ddinbych 2013 |       | Cymru 2013 |
|----------------------------------------------------|-------------------|-------|-------------------|-------|-------------------|-------|------------|
|                                                    | %                 | Safle | %                 | Safle | %                 | Safle |            |
| Lefel 1                                            | 90.9              | 12    | 93.2              | 7     | 93.6              | 11    | 93.2       |
| Lefel 2                                            | 71.4              | 5     | 82.7              | 1     | 85.7              | 2     | 77.8       |
| Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg | 52.5              | 8     | 54.7              | 7     | 53.4              | 12    | 52.7       |
| CSI                                                | 51.3              | 8     | 53.1              | 7     | 49.2              | 14    | 49.2       |

|                                |       |   |       |   |       |   |       |
|--------------------------------|-------|---|-------|---|-------|---|-------|
| Pwyntiau Ehangach              | 449.8 | 4 | 504.9 | 5 | 553.2 | 4 | 501.2 |
| Pwyntiau Ehangach wedi'u Capio | 317.6 | 9 | 339.2 | 3 | 345.3 | 7 | 333.1 |

## Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg

Un o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yw Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg sef nifer y disgyblion sy'n derbyn 5 TGAU A\*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyffelyb a graddau TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg A\*-C (Atodiad 1)

Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg oedd 53.4% yn 2013, sy'n 1.3% yn is na 2012. Mae'r nifer 1.3% (52.7%) yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn gosod yr Awdurdod Lleol yn 11 yng Nghymru yn 2013 o seithfed yn 2012. Fodd bynnag, er bod gostyngiad eleni, mae'n unol â sefyllfa prydau ysgol am ddim yr ALI. Mae gwerth Set Ddata Graidd Cymru Gyfan yn ychwanegu data sy'n cymharu Awdurdodau Lleol yn gosod yr Awdurdod Lleol yn seithfed yng Nghymru yn 2013.

Roedd Lefel 2 yn cynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg wedi cynyddu yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones, Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Uwchradd y Rhyl, roedd wedi gostwng yn yr ysgolion eraill. Ysgol Bendigaid yr Edward Jones ac Ysgol Uwchradd y Rhyl oedd wedi dangos y gwelliannau mwyaf ac yn parhau yn y chwarter cyntaf, Ysgol Uwchradd Prestatyn oedd wedi gwaethygu fwyaf.

|                                | 2011                                              | 2012  | 2013 | Gwahaniaeth 2012-2011 |                           |
|--------------------------------|---------------------------------------------------|-------|------|-----------------------|---------------------------|
|                                | Lefel 2 yn cynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg |       |      |                       | Chwarter wedi'i feincnodi |
| Ysgol y Santes Ffraid          | 75%                                               | 72%   | 71%  | -1                    | 3                         |
| Ysgol Uwchradd Dinbych         | 40%                                               | 50.0% | 51%  | +1                    | 3                         |
| Ysgol Dinas Brân               | 60%                                               | 57%   | 56%  | -1                    | 3                         |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn       | 50%                                               | 53%   | 46%  | -7                    | 4                         |
| Ysgol Y Bendigaid Edward Jones | 37%                                               | 39%   | 44%  | +5                    | 1                         |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl          | 36%                                               | 45%   | 51%  | +6                    | 1                         |
| Ysgol Brynhyfryd               | 68%                                               | 71%   | 68%  | -3                    | 2                         |
| Ysgol Glan Clwyd               | 67%                                               | 68%   | 66%  | -2                    | 2                         |

Cyfanswm y canran sydd wedi derbyn Trothwy Lefel 1 o TGAU 5A\*-G neu gymhwyster galwedigaethol cyffelyb yn Sir Ddinbych eleni yw 94.0% yn 2013 sydd 1% yn uwch na 2012.

Roedd tri o ddisgyblion (0.2%) wedi gadael ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn 2013, mae hyn yn gosod yr ALI yn 12 yng Nghymru (Cymru 0.3%). Mae hyn yn welliant o 10 disgybl, 0.8% a safle 19 yn 2012 (Cymru 0.4%).

### Trothwy Lefel 2 (5 TGAU 5A\*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyffelyb)

Trothwy Lefel 2 yw nifer y disgyblion sy'n derbyn 5 TGAU A\*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyffelyb. Mae hyn yn cymryd lle dangosydd 5A\*-C a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Canran y disgyblion sydd wedi derbyn Trothwy Lefel 2 oedd 86%, sydd 3% yn uwch na'r llynedd. Dyma'r bedwaredd flwyddyn y mae dangosydd Lefel 2 wedi cynyddu yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Mae hyn yn gosod ALI Sir Ddinbych yn ail yng Nghymru yn 2013, un lle'n is na 2012, roedd gwerth Set Ddata Graidd Cymru Gyfan yn gosod yr ALI yn chweched yng Nghymru.

Roedd yr holl ysgolion heblaw Ysgol y Santes Ffraid wedi gwella yn 2013, Ysgol Uwchradd Prestatyn (93%), Ysgol Dinas Brân (99%), Ysgol Glan Clwyd (97%) ac Ysgol Uwchradd y Rhyl (91%) Ysgol Brynhyfryd (92%) wedi cyflawni dros 90% ar gyfer Trothwy Lefel 2. Ysgol Uwchradd y Rhyl oedd wedi gwella fwyaf gan wella o 15%. (Atodiad 1)

|                                   | 2011         | 2012       | 2013       | Gwahaniaeth<br>2012-2013 | Chwartelau |
|-----------------------------------|--------------|------------|------------|--------------------------|------------|
| <b>Lefel 2</b>                    |              |            |            |                          |            |
| Ysgol y Santes Ffraid             | 94.7%        | 97%        | 89%        | -7%                      | 2          |
| Ysgol Uwchradd<br>Dinbych         | 53.8%        | 60%        | 71%        | +11%                     | 4          |
| Ysgol Dinas Brân                  | 86.8%        | 98%        | 99%        | +1%                      | 1          |
| Ysgol Uwchradd<br>Prestatyn       | 80.0%        | 92%        | 93%        | +1%                      | 1          |
| Ysgol y Bendigaid<br>Edward Jones | 45.8%        | 68%        | 69%        | +1%                      | 3          |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl             | 52.0%        | 76%        | 91%        | +15%                     | 1          |
| Ysgol Brynhyfryd                  | 82.2%        | 86%        | 92%        | +6%                      | 1          |
| Ysgol Glan Clwyd                  | 78.7%        | 92%        | 97%        | +5%                      | 1          |
| <b>Sir Ddinbych</b>               | <b>71%</b>   | <b>81%</b> | <b>86%</b> | <b>+3%</b>               |            |
| <b>CYMRU</b>                      | <b>67.0%</b> | <b>71%</b> | <b>78%</b> | <b>+7%</b>               |            |

### Canlyniadau dros dro Lefel 2 Ysgol Plas Brondyffryn

Mae disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn yn sefyll arholiadau pan fyddant yn barod, sy'n golygu mai ychydig o ddisgyblion sy'n derbyn cymhwyster TGAU yn 15 oed gan fethu dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru. Eleni roedd 5 o ddisgyblion wedi cyflawni Trothwy Lefel 1 a 55% o'r disgyblion wedi derbyn cymhwyster cydnabyddedig. Roedd 74% o ddisgyblion Ysgol Tir Morfa wedi derbyn cymhwyster cydnabyddedig is na TGAU a Lefel 1.

### Bandio Uwchradd 2012

Mae bandio yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru fel dull o ddefnyddio data cenedlaethol ar berfformiad ysgolion mewn cyd-destun er mwyn grwpio ysgolion yn unol â'u sefyllfa o ran gwelliant gan eu cymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru. Mae ysgolion Band 1 yn dangos perfformiad cyffredinol a chynnydd da ac mae'r rhai ym mand 5 yn dangos perfformiad a chynnydd gwan o'u cymharu ag ysgolion eraill.

|                                 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
|---------------------------------|------|------|------|------|
| Ysgol y Santes Ffraid           | 2    | 2    | 2    | 2    |
| Ysgol Uwchradd Dinbych          | 5    | 4    | 3    | 3    |
| Ysgol Dinas Brân                | 3    | 1    | 1    | 2    |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn        | 3    | 2    | 2    | 3    |
| Ysgol y Bendigaidd Edward Jones | 4    | 3    | 2    | 3    |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl           | 5    | 4    | 2    | 1    |
| Ysgol Brynhyfryd                | 4    | 2    | 2    | 3    |
| Ysgol Glan Clwyd                | 3    | 3    | 2    | 2    |

Nid oes unrhyw ysgol yn Sir Ddinbych ym mandiau isel 4 a 5 yn 2013. Mae Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi gwella o fand 5 yn 2010 i fand 1 yn 2013. Mae sgôr cyfartaledd bandio'r awdurdod lleol yn gosod Sir Ddinbych yn bumed yng Nghymru yn 2013 i lawr o fod yn ail yn 2012.

### **Canlyniadau Trothwy Lefel 3 ( Lefel A a chymhwyster galwedigaethol cyffelyb)**

Y dangosydd perfformiad ar gyfer ôl-16 yw Trothwy Lefel 3 sy'n gyfystyr â 2 Lefel A neu gymhwyster galwedigaethol cyffelyb. Mae Trothwy Lefel 3 wedi aros yn ei unfan ar 96.8% am y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 96.5% ac yn gosod Sir Ddinbych yn nawfed yng Nghymru. Mae canlyniadau Lefel A wedi gwella eleni yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Roedd mwy o fyfyrwyr wedi derbyn graddau A\*-C gan wella i 77.7% eleni, mae hyn 1.0% yn uwch na 2012. Atodiad 2.

- REACH - % of young people gaining recorded learning outcomes as a percentage of Reach
- URDD - % of young people with recorded learning outcomes in Welsh language and culture

## IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- Continue to implement the Potensial Project
- Continue to work with partners to promote Welsh language
- Contribute to the development of a North Wales Peri Natal Mental Health Strategy
- Deliver a Families First funded family resilience project
- Develop a web based communication platform for providers
- Develop and implement an anti bullying strategy
- Ensure all settings implement an “absence” management policy for under 5s
- Ensure representation on EMHWP steering group and contribution to an EMHWP strategy
- Ensure that all mother’s mental health is assessed ante natal, post natal
- Implement a regional approach to commission young carers services
- Implement the Young Carers Strategy and respond to identified needs
- Improve identification of young carers and their support through a new referral process
- Improve the qualifications students receive in basic skills at the end of statutory education
- Offer “Rights 4 Life” assessments to all young carers and their families
- Pilot accredited family learning opportunities for families with children up to the age of 11
- Support families to ensure a timely transition from childcare provision to foundation phase
- Support the Denbighshire Engagement Group to coordinate opportunities for young NEET
- Support the development of Community Focused Schools
- Support the implementation of the Welsh in Education Scheme across schools and partners
- Supporting the delivery of general and vocational curriculum in three transformation areas
- Supporting the engagement of partners to enrich the basic and life skills in informal settings
- To develop support groups for mothers with post natal depression
- Work in partnership with Mudiad Meithrin to promote Welsh medium education

## OUTCOME 4: VULNERABLE FAMILIES IN DENBIGHSHIRE ARE SUPPORTED TO LIVE A LIFE FREE FROM POVERTY, WHERE THEY CAN BE INDEPENDENT AND FLOURISH

**What this means:** Fewer families will be living in poverty than would be the case if we were not focusing resources in this area. This also means that the most vulnerable children and families will have improved health, education, and economic outcomes and feel confident and optimistic about their futures. We realise that this is a tough aspiration. We are currently facing the most challenging economic climate seen in recent years, and during this time, we want to do as much as we can to cushion the effects of unemployment and reduced public spending on vulnerable families.

### INDICATORS

---

- % of 18-24 year olds claiming Jobseeker's Allowance
- % of children aged 16-18 Not in Education, Employment or Training
- % of children fully immunised by their 4th birthday
- % of children in poverty
- % of children in reception class who are overweight or obese
- % of FSM pupils who achieve the Core Subject Indicator at KS2
- % of FSM pupils who achieve the Foundation Phase Indicator
- % of FSM pupils who achieve the Level 2 threshold inc. English/Welsh & Maths
- % of half day sessions missed by FSM pupils in primary school
- % of half day sessions missed by FSM pupils in secondary school
- % of offenders who re-offend
- % of pupils achieving the expected Foundation Phase Outcome (Outcome 5+)
- % of service users with mental health needs who leave support to live independently
- Children in need by parental capacity (domestic abuse)
- First time entrants to Youth Offending Teams
- Number of homeless households with dependent children in temporary accommodation
- Number of households with dependent children accepted as eligible and in priority need
- Rate of conceptions under age 16 years per 1,000 female residents aged 13 - 15
- Rate of live births with a birth weight of less than 2500g

### PERFORMANCE MEASURES

---

- % increase in immunisation rates in areas of low uptake
- % of FIS customers satisfied with service received
- LAP/NAP % parents who are confident to support their child's language & numeracy skills
- LAP/NAP % parents who report improvement on parenting and/or child behaviour measures
- LAP/NAP % parents who report they are sharing a book with their child at least once a day
- LAP/NAP % parents who report they play more with their child
- Number of children and adults raised above UK poverty lines
- Number of children whose needs have lessened as a result of early intervention
- Number of contacts with families via email/telephone/outreach
- Number of Flying Start parent/carers enrolled
- Number of hits on FIS website
- Number of households raised out of fuel poverty
- Number of in depth enquiries
- Number of Parent Support Groups held
- Number of Parenting Operational Groups (POG) held
- Total confirmed State Benefit and Tax Credit gains (£m)

## IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- Acceptable Behaviour Contracts & ABC meetings
- ASB Review Group meetings
- Deliver Families First funded childcare project
- Deliver Families First funded buddy service project
- Deliver Families First funded disability training programme for providers, parents and carers
- Deliver Families First funded family support project
- Deliver Families First funded Home/Community Play Development for Disabled Children
- Deliver Families First Income Maximisation project
- Deliver Families First Parenting project
- Develop an action plan to spend the childcare component of the School Effectiveness Grant
- Develop and deliver a multi agency immunisation plan
- Develop better linked networking and support groups including parent led support groups
- Implement actions prioritised by the Families First project board
- Motor Education Programme
- ONSET Assessment for Prevent
- PPO housing projects (HAG)
- Prevent and Deter
- Prolific and other Priority Offenders
- Promote flying start in the areas through with bookstart, language and play
- Review FIS and develop an action plan to implement the recommendations
- Support the delivery of supported housing projects
- Support the delivery of the house share crisis intervention project
- Support the implementation of the Acute Care Tenancy Support (ACTS) project
- Warning Letters
- Work in partnership with schools to provide immunisation programmes in all high schools
- Work together with parenting co-ordinator, operational group and families first learning set
- Working in partnership to ensure support for children with additional learning needs

## OUTCOME 5: NEEDS OF OUR RURAL COMMUNITIES ARE RECOGNISED & MET

**What this means:** People, including children and young people, living in rural areas will feel recognised, listened to, and valued. Whilst it is not always possible to ensure every service is available in every rural area, we will work with communities to understand which services are most important to them and how they can be delivered more effectively.

### SURVEY INDICATORS

---

- % of people that are satisfied with their local area as a place to live
- % of people that are satisfied with the cost of a journey
- % of people that are satisfied with the frequency of buses
- % of young people that are satisfied that buses arrive on time
- % of young people that are satisfied with the cost of a journey
- % of young people that are satisfied with the frequency of buses

### INDICATORS

---

- % of principal (A) and non-principal (B) and (C) roads that are in overall poor condition
- Number of rural entrepreneurial initiatives supported
- Number of tourists attracted to the region (coastal Denbighshire) (000s)
- Older people living in rural areas feel less isolated

### PERFORMANCE MEASURES

---

- % of Access to Advocacy service users that feel more confident following support
- Number of new and existing enterprises financially assisted
- Number of service users using the Access to Advocacy service

### IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- Complete phase one to support the extension of the Llangollen railway into Corwen
- Denbighshire Rural Development Plan Partnership to deliver Axis 3 and Axis 4
- Enable communities to take control through community voice and participatory budgeting
- Establish the 'Village Agent' in four community / town councils
- Explore phase two options for a new station/complex at Corwen
- LSB to lobby nationally for improved broadband provision
- Promote public transport services and concessions through the new CLIC website
- Raise awareness of all advocacy services available in the county
- Review accessibility of buses - percentage with low floors, availability of accessible stops
- Review bus journeys from main population centres to regional A&E hospitals (<30mins)
- Rural Denbighshire Business Creation and Development Project
- With local communities, deliver two participatory budgeting projects



## OUTCOME 6: PEOPLE IN DENBIGHSHIRE HAVE HEALTHY LIFESTYLES

**What this means:** People living in Denbighshire will be healthy and make informed decisions that result in individuals feeling and being as healthy as possible. It also means individuals, families, and communities taking responsibility for their own health and wellbeing. The negative impacts of drinking, smoking, poor diet, taking risks with sexual health and inactive lifestyles will be reduced.

### INDICATORS

---

- % breastfeeding at 8 weeks
- % breastfeeding at birth
- % of adults in Denbighshire know how to look after their mental wellbeing
- % of adults in Denbighshire that are overweight
- % of adults who meet physical activity guidelines in the past week
- % of adults who reported being a current smoker (daily, occasional)
- Abortion rate under 18 per 100,000 females
- Conception rate under 18 per 100,000 females
- Number of individuals presenting with alcohol misuse issues
- Number of individuals presenting with substance misuse issues

### PERFORMANCE MEASURES

---

- % of identified front line staff trained in Smoking Brief Intervention Training
- % validated quit rate in Denbighshire at 4 weeks
- % completion rate for the 16 week National Exercise Referral Scheme
- % of childminders/playgroups who provide food in line with national nutrition guidelines
- % of nurseries that meet criteria for nutrition for preschools
- % of pregnant women/new mums with a BMI of 30
- % of schools with health drop in sessions that include sexual health services
- % of smokers in Denbighshire making a quit attempt via smoking cessation services
- % of teachers and youth workers who are confident dealing with substance misuse incidents
- % of young people with knowledge of the health risks of legal and illegal substances
- % of young people with knowledge of the psychological risks of legal and illegal substances
- % of young people who have knowledge of the social impact of illegal and legal substances
- % settings that report HPSS making a positive difference to the setting
- % uptake 4 in 1 (Pre-School Booster) at 5 years of age
- % uptake 5 in 1 at 1 year of age
- % uptake MMR 1st dose (by 16 years of age)
- % uptake MMR 1st dose at 2 years of age
- % uptake MMR 2nd dose (by 16 years of age)
- % uptake MMR 2nd dose at 5 years of age
- % uptake of 3 in 1 teenage booster
- % uptake of HPV 3rd dose for Year 8
- Number of attendances at leisure activities by disabled people
- Number of children and young people receiving SRE education sessions
- Number of children supported through Healthy Pre School scheme across the county
- Number of early years settings achieving Healthy & Sustainable Preschool Scheme
- Number of older people participating in physical activity and wellbeing opportunities
- Number of premises registered with breastfeeding welcome scheme
- Number of settings implementing Healthy Pre School scheme across the county
- Number of SRE education sessions delivered
- Number of teachers/youth workers who have received substance misuse training
- Number of teachers/youth workers/support staff trained in sexual health education

- Number of times support has been provided to schools during substance misuse incidents
- Number of visits from people aged 16 and under who participate in the Free Swim Initiative
- Number of visits from people aged 60 and over who participate in the Free Swim Initiative
- Number of young people participating in substance misuse sessions
- Number of parents reporting a positive difference to their child's health and well being
- Number settings providing the c card scheme
- Number volunteers trained to deliver peer support groups

## IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- All key front line staff to provide advice on smoking dangers and passive smoking issues
- Basic Drug and Alcohol Awareness Training
- Continue to deliver 'Let's walk Denbighshire' programme
- Continue to deliver GP referral scheme
- Continue providing immunisation programmes in all high schools
- Continue to support the delivery of evidence based healthy eating initiatives
- Contraceptive advice and pregnancy testing is available in all high schools
- Contribute to the development of the national HSS database
- Contribute to the maternal obesity strategic group, with a focus on maternal obesity
- Deliver free-swim initiative to under 16 and over 60s across the county
- Deliver sex and relationship education in year 6
- Deliver sex and relationship education in Year 9
- Delivery of Choose Life presentations
- Develop a comprehensive Tobacco Control Plan for Denbighshire and implement plan
- Develop and deliver a multi agency targeted plan to achieve national immunisation target
- Develop and implement Creating an active Denbighshire Action Plan
- Develop smoke free policies for children's playgrounds, sports grounds and schools
- Develop the disability coordinator role in order to promote inclusively of activities
- Development of "Talk to Me" suicide and self-harm prevention strategy
- Dewi Sant Centre
- Following the review of Play provision, oversee the development of an action plan
- Harm Reduction Team Service
- Identify and train volunteers to offer breastfeeding peer support
- Implementation of a whole school approach to Alcohol Misuse Prevention
- Implementation of Empower to Choose project (Long acting reversible contraception LARC)
- Increase the number of premises as members of the breastfeeding Welcome Scheme
- Motivational Enhancement Team Service
- Night Shelter
- Pilot project to improve SRE at transition between primary and secondary school
- Shared Care Service
- Support extension of C-card scheme across the county in appropriate venues
- Support the extension of school-based sexual health advice through school nurses
- Support the implementation of the Healthy Pre School Scheme
- Train and support teachers, youth workers, and staff in sexual health education (special)
- Train and support teachers, youth workers, and staff in sexual health education (normal)
- Train key front line staff to record smoking status, advise and refer pregnant women
- Work with Social Services to enhance opportunities for older people
- Young Persons substance Misuse Service

## OUTCOME 7: CHILDREN, YOUNG PEOPLE AND VULNERABLE ADULTS IN DENBIGHSHIRE ARE SAFE

**What this means:** That children, young people, and vulnerable adults are protected from abuse, neglect, discrimination, and exploitation, in addition to living in safe and secure housing. Parents, carers, families, communities and services all have a role to play in keeping them safe and helping them keep themselves and each other safe.

### INDICATORS

---

- % of adult protection referrals completed where the risk has been managed
- Age-standardised mortality rates per 100,000 population (suicide)
- Number of 0-18 year olds admitted to hospital as an emergency due to injury or poisoning
- Number of agencies / staff trained to use CAADA DASH RIC2
- Number of children on the child protection register for over 12 months
- Number of injuries from accidental fires in dwellings - Denbighshire
- Number of injuries from accidental fires in dwellings - Rhyl
- Number of prosecutions for environmental crime carried out by the Local Authority
- Number of referrals to MARAC
- The rate of accidental fires in dwellings - Denbighshire (per 1,000)
- The rate of accidental fires in dwellings - Rhyl South West (per 1,000)
- The rate of accidental fires in dwellings - Rhyl West (per 1,000)
- The rate of all crime recorded by North Wales Police per 1,000 population
- The rate of children injured on the road per 1,000 population

### PERFORMANCE MEASURES

---

- % of front line staff trained in Home Safety Awareness
- Number of children in safer environments after home safety equipment installations
- Number of home fire safety checks throughout the county
- Number of referrals for installation of home safety equipment and checks

### IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- Alcohol Controlled Areas
- Anti Social Behaviour Officer
- Anti-Social Behaviour and Licensing Tasking
- CAADA DASH RIC Agency Training
- Community Mobilization
- Deliver a local Talk to Me action plan
- Deliver the Phoenix Project
- Deliver the Rhyl South West/Rhyl West Home Fire Safety Project
- Domestic Abuse Forum
- Effective Signage
- Effective use of CCTV
- Effective use of intelligence
- Emrys Ap Iwan
- Graffiti Removal and Clean ups
- Independent Domestic Violence Coordinator (IDVA)
- Local Safeguarding Children Board
- LSCB to ensure staff can use the revised Mental Health and Substance Abuse Protocol
- LSCB to ensure adequate mechanisms to identify and support vulnerable people
- LSCB and MARAC Steering Group to map and model future provision for domestic abuse

- Management of the night time economy
- Multi Agency Risk Assessment Conference
- Multiagency Visit to Licensed Premises
- Neighbourhood Management
- Neighbourhood Watch
- Operation SANTA
- Provide home safety assessments to prioritised households and rectify home safety issues
- Provide targeted injury prevention training to key workers with children and young people
- Raise awareness of abuse and neglect in vulnerable adults
- Reclaim the Night Domestic Abuse and Sexual Awareness Raising Event
- Safer Homes
- Safer Towns Award
- School Community Police Officers
- Secure by Design
- Smartwater
- Teenage Relationship & Sexual Violence
- Test purchasing
- White Ribbon Relay
- Work to increase agency referrals of the people most at risk for Home Fire Safety Checks

## OUTCOME 8: DENBIGHSHIRE HAS A THRIVING AND SUSTAINABLE ECONOMY AND A SKILLED WORKFORCE

**What this means:** That businesses and social enterprises in Denbighshire will be prosperous and fit for our communities now and in the future, and the county will have a skilled and supported workforce. Infrastructure in the county will be suited to the needs of external investors and will be business friendly, attracting more opportunities to Denbighshire. “A robust recovery by the wider private sector is therefore vital to helping people into work and to tackling child poverty (Child Poverty Strategy for Wales, 2011).

### INDICATORS

---

- % of children aged 16-18 Not in Education, Employment or Training
- % of enterprise survival rates in Denbighshire after one, two and three years (2009)
- % of further Education 16-19 learners with literacy skills below Level 1
- % of further Education 16-19 learners with numeracy skills below Level 1
- % of pupils achieving the level 2 threshold inc. English/Welsh and maths (all pupils)
- % of working age population, aged 16-64, in employment
- Adults in Denbighshire have good basic skills
- Number of Denbighshire public and 3<sup>rd</sup> sectors providing volunteering opportunities
- Number of hours spent by young people participating in the Millennium Volunteer Scheme
- Number of new and existing enterprises financially assisted
- Number of public and 3<sup>rd</sup> sectors achieved investing in volunteers award
- Number of public and 3<sup>rd</sup> sectors working towards investing in volunteers award
- Number of volunteering opportunities
- Number of young people engaged with the Millennium Volunteer Scheme

### PERFORMANCE MEASURES

---

- % of people successfully returning to work after a period of sickness absence
- % of people who believed Fit for Work Scheme had helped them return more quickly
- % of people who believed they would still be able to do their current job six months later
- % of people with learning disability/physical/sensory impairment in work placements
- % of people with learning disability/physical/sensory impairment gained qualifications
- % of people with learning disability/physical/sensory impairment working to qualifications
- % of unemployed beneficiaries of the Digital Inclusion project completing First Click
- % of volunteering placements filled as a percentage of those advertised
- Number of volunteer coordinators
- Number of volunteers managed by Volunteer Coordinators in the public and 3<sup>rd</sup> sectors
- Number of young people engaging in Potential Project
- Number people supported by Fit for Work
- Number of people with learning disability/physical/sensory impairment in work placement
- Number of people with learning disability/physical/sensory impairment participating
- Number of people with learning disability/physical/sensory impairment positive outcomes
- REACH - % of young people contacted as a percentage of youth population
- REACH - % of young people gaining a recognised accreditation
- REACH - % of young people gaining recorded learning outcomes
- Total sales revenue for work opportunities businesses (£)

### IMPROVEMENT ACTIVITY

---

- Complete LSB project to map NEET
- Continue to deliver and develop New Work Connections

- Deliver the Digital Inclusion Project
- Deliver the Joint LSB's Financial Inclusion Project
- Deliver the LSB Workforce Development Project
- Improve basic skills within identified geographic "hot spot" areas
- Improve the qualifications students receive in basic skills at the end of statutory education
- Improve tracking of 19+ NEETs
- Map volunteering in DCC to develop policies and procedures to support/reward volunteers
- Produce 10 case studies exploring benefit of volunteering to the volunteer and organisation
- Promote use of Local Labour Agreements and Community Benefit Clauses in procurement
- Promote volunteering opportunities, work experience, and internships
- Support FFW extension in terms of geographical area, eligibility criteria and lifespan
- Support the development of new markets for work opportunities across Denbighshire
- Supporting the engagement of partners to enrich the basic and life skills
- Work placements for people with a learning disability/physical/sensory impairment

|                                 |                                                                                                        |
|---------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>                                                               |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>6 Chwefror 2014</b>                                                                                 |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol /<br/>Cyfarwyddwr Corfforaethol, Moderneiddio a<br/>Lles</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Rheolwr, Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru</b>                                                       |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Adroddiad Blynyddol Canolfan Gomisiynu<br/>Gogledd Cymru</b>                                        |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru (CGGC) a rhannu cynnwys ei Adroddiad Blynyddol cyntaf.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth am waith Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Gofynnir i aelodau ystyried a rhoi sylwadau ar waith CGGC fel y disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol.

## **4. Manylion am yr adroddiad**

Mae CGGC yn brosiect ar y cyd rhwng 6 Chyngor gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n unigryw yng Nghymru gan ei fod yn cynnwys gwasanaethau plant ac oedolion ac mewn partneriaeth â'r GIG. Mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych ac yn atebol i Fwrdd Rheoli, a gadeirir gan Sally Ellis. Mae Rheolwr CGGC yn darparu adroddiadau diweddarau rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Iechyd a Chymdeithasol.

Mae gan CGGC bedair prif swyddogaeth:

- Sicrhau gwerth am arian yn y lleoliadau cost uchel presennol
- Dod o hyd i leoliadau newydd trwy broses agored a sicrhau gwerth am arian
- Cydlynu ymagwedd ranbarthol a monitro ansawdd darpariaeth cartrefi gofal
- Comisiynu strategol, gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r farchnad i sicrhau y gall gwasanaethau fodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae CGGC yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yn 2012/13, cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i'r gost flynyddol o gynnal CGGC oedd £11,113

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn £20,000 gan bartneriaid tuag at gostau cynnal tîm y Ganolfan.

Hyd yma, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi canfod gwerth £44,922 o arbedion (dros gyfnod o 3 blynedd, gan gynnwys 12/13 a 13/14 yn cynnwys osgoi costau o £1,608).

Mae CGGC yn monitro ansawdd gofal mewn 25 o gartrefi gofal yn Sir Ddinbych ar ran y Cyngor.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Cynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb pan ysgrifennwyd yr Achos Busnes Llawn i ddatblygu'r Ganolfan. Nid oes angen ailadrodd hwn.

## **8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd â phob partner ar yr Achos Busnes Llawn. Mae CGGC yn darparu adroddiadau rheolaidd i Fwrdd y Rhaglen Iechyd a Chymdeithasol ac yn ymgynghori â darparwyr a phartneriaid, gan gynnwys staff rheng flaen yn rheolaidd.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

## **10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae asesiad risg mewn grym ac yn cael ei fonitro gan Fwrdd Rheoli CGGC

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae erthyglau 6.3.3(b) a 6.3.4(ch) yn amlinellu pwerau Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr

Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru

Ffôn: 01824 706637



**Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru**



**Adroddiad  
Blynyddol**

**Hydref 2013**

## Cynnwys

- Rhagair
- Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

2. Cyd-destun Cefndir: beth ddywedodd yr Achos Busnes Llawn

3. Adroddiad Cynnydd ar draws 4 swyddogaeth allweddol

4. Risgiau Allweddol

5. Symud ymlaen

- Atodiadau


## Rhagair

Mae Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru, a oedd am y tro cyntaf yn Hydref 2012 wedi'i staffio'n llawn, yn ddatblygiad newydd hanfodol yn y maes gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae nid yn unig yn cyflenwi lleoliadau o ansawdd gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion lefel uchel, ond mae hefyd yn helpu i newid gwasanaethau, gan weithio gydag awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd a darparwyr. Un esiampl yw datblygu gwasanaethau sy'n galluogi pobl i symud ymlaen o ofal preswyl a byw mewn lleoliadau yn y gymuned. Mae'r Ganolfan yn sicrhau arbedion, rhywbeth hollbwysig mewn adeg o gynildeb ariannol, ond mae hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio cyd adnoddau'n well.

Ni fu'n hawdd cyflawni hyn. Mae'r Ganolfan yn dwyn ynghyd saith o bartneriaid- y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr ac nid ydym wastad wedi cytuno. Ond rydym wedi glynu wrth yr egwyddor mai gweithio gyda'n gilydd yw'r ffordd orau o sicrhau gwelliannau i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Ngogledd Cymru. Ac, yn ystod y flwyddyn gyntaf hon yn gweithredu, er bod data gwael, ein hanallu i gysoni prosesau, a chyflymdra datblygiadau wedi gwneud i ni deimlo'n rhwystredig, rydym wedi parhau i gredu hyn, magu hyder drwy lwyddiannau ymarferol ac, yn wir, gweld cyfleoedd pellach i elwa drwy weithio'n gydweithredol.

Mae'r tîm, dan arweiniad Vicky Poole, wedi bod yn arbennig iawn o ran eu gafael ar dasg anodd a'u dyfalbarhad i sicrhau cynnydd mewn maes sy'n newydd i ni oll.

Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am y camau breision ymlaen a wnaed yn y flwyddyn gyntaf ac edrychwn ymlaen at gyflenwi yn yr ail flwyddyn.



Sally Ellis

Cadeirydd Bwrdd Rheoli CCGC

## **Crynodeb Gweithredol**

Partneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru (CCGC). Mae CCGC yn gyfrifol am gomisiynu lleoliadau uchel o ran costau, isel eu nifer mewn cartrefi gofal i blant, pobl ifanc ac i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth, anableddau corfforol ac anghenion iechyd meddwl.

Bu'n gweithredu ers 12 mis bellach, a dyma'i Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Mae gan y Ganolfan bedair prif swyddogaeth:

- Sicrhau gwerth am arian gyda'r lleoliadau presennol
- Cyrchu lleoliadau newydd
- Cydgasglu gwybodaeth am gartrefi gofal a monitro eu hansawdd
- Comisiynu strategol a hwyluso'r farchnad.

I grynhoi, mae'r Ganolfan wedi arbed £635k yn y blwyddyn gyntaf ac mae tîm y Ganolfan yn hyderus y caiff y rhagolwg o arbedion yn yr achos busnes gwreiddiol, a oedd yn £1.1-£2 miliwn, ei gyflawni o fewn y ffrâm amser tair blynedd disgwylidig. Mae CCGC wedi cyrchu 152 o leoliadau newydd; wedi datblygu fframwaith monitro rhanbarthol ac wedi cynnal ymweliadau monitro mewn 21 o gartrefi.

Mae'r tîm wedi mapio'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth, wedi gweld bylchau ac wedi ysgrifennu amrywiol fanylebau gwasanaeth sy'n ategu datblygu dau fframwaith cymeradwy rhanbarthol er mwyn datblygu'r farchnad yn well a bodloni anghenion pobl ag anghenion cymhleth.

## 1. Cyflwyniad

Mae Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru (CCGC) bellach wedi bod yn weithredol ers 12 mis a dyma'i Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Partneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru. Mae CCGC yn gyfrifol am gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag ystod benodol o anghenion cymhleth o ran gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd.

Mae gan y Ganolfan 3.75 aelod staff

- Rheolwr
- Swyddog Comisiynu a Chaffael
- Swyddog Monitro Ansawdd (0.75 FTE)
- Swyddog Adnoddau a Data

Mae'r Ganolfan hefyd wedi llwyddo yn ei chais i leoli Swyddog Gweithredol Caffael dan hyfforddiant dan nawdd Llywodraeth Cymru am 12 mis, ac mae hyn wedi darparu capasiti ychwanegol sydd i'w groesawu yn ogystal ag wedi darparu'r cyfle i feithrin cysylltiadau agosach gydag arbenigwyr caffael.

Mae cyllideb weithredol flynyddol CCGC yn £184,000 sy'n cynnwys cyfraniadau gan y 7 aelod partner.


Cyngor Sir Ddinbych yw'r corff sy'n cynnal y tîm a sefydlwyd trefniadau llywodraethu cadarn sydd wedi'u hategu gan Gytundeb Partneriaeth ffurfiol. Caiff Rhaglen waith CCGC (atodiad 1) ei goruchwyllo gan y Bwrdd Rheoli, sy'n cyfarfod bob dau fis (atodiad 2) dan gadeiryddiaeth Sally Ellis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ddinbych.

Y gwasanaethau sydd o fewn cwmpas CCGC ar hyn o bryd yw Cartrefi Gofal, Cartrefi Gofal gyda Nyrsio i Oedolion ag anghenion iechyd meddwl, anabledau dysgu, anabledd corfforol neu anaf a gafwyd i'r ymennydd a Chartrefi Gofal (gan gynnwys Addysg) i Blant a Phobl Ifanc. Tybiwyd bod y rhain 'o fewn y cwmpas' am ddau brif reswm:

- Mae gan y Cartrefi leoliadau o bob cwr o'r rhanbarth oherwydd y galw cymharol isel gan y siroedd unigol
- Mae'r Cartrefi yn codi ffioedd uwch na'r rheini a delir i gartrefi gofal safonol

## 2. Cyd-destun Cefndir


Sefydlwyd CCGC ar ôl datblygu Achos Busnes Amlinell a Llawn yn Ionawr 2012. Roedd yr Achos busnes llawn (ABLI) yn datgan yr egwyddorion dylunio y datblygwyd y Ganolfan arnynt fel y gwelir isod



- Rhaid i'r cydweithredu ganiatáu ar gyfer atebolrwydd, hyblygrwydd a chyflenwi lleol
- Pwyslais ar uniondeb, ansawdd a chanlyniadau
- Rhaid i'r trefniadau cydweithredol roi gofalwyr ac anghenion unigolion wrth wraidd y comisiynu.
- Sicrhau'r gwerth gorau am arian, o safbwynt comisiynu a chyflenwi
- Safoni pryd bynnag y bo hynny'n bosibl (data, prosesau a chanlyniadau'n benodol)
- Dylai pob proses a fframwaith gefnogi cydweithredu
- Gwneud pethau unwaith fel rhanbarth pryd bynnag y bo hynny'n bosibl
- Dylai'r penderfyniadau fod wedi'u seilio'n gadarn ar wybodaeth a dealltwriaeth
- Rheoli'r farchnad fel un rhanbarth sy'n cefnogi economi Gogledd Cymru
- Rhaid i bawb fod ar ei ennill yn sgil y cydweithredu (neu o leiaf ni ddylai neb fod ar ei golled)
- Adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli eisoes
- Rhaid sicrhau adnoddau ar gyfer newid a'i reoli'n briodol
- Mae angen i'r cydweithredu adlewyrchu anghenion diwylliannol ac iaith.

Roedd yr ABLI hefyd yn datgan y dylai'r Ganolfan ganolbwyntio ar wasanaethau uchel o ran costau, isel eu nifer ar draws yr elfennau canlynol yn y cylch comisiynu a gynhwysir yn Fframwaith Comisiynu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Dadansoddi a chynllunio;
- Caffael; a
- Monitro ac adolygu



O fewn y fframwaith hwn, cytunodd y partneriaid ar set o nodau a chanlyniadau allweddol i CCGC eu cyflawni; maent i'w gweld isod er mwyn adrodd ar y cynnydd yn erbyn y rhain.

### Canlyniadau

- Gwell canlyniadau i bobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth
- Darpariaeth gwasanaethau o well ansawdd
- Gwell gwerth am arian
- Gwell rheolaeth dros y farchnad

- Perthynas gytbwys gyda darparwyr gwasanaethau
- Gwell dewis o wasanaethau sy'n hybu annibyniaeth a chynhwysiant i fodloni anghenion pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.

### **Nodau**

- Sicrhau gwasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol o well ansawdd i blant ac oedolion agored i newid- i ddechrau mewn lleoliadau uchel o ran costau, isel eu nifer
- Sicrhau gwell gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol
- Rhannu a chydlynu gwybodaeth a hysbysrwydd a chynllunio gyda'n gilydd mewn meysydd gwasanaeth y mae gennym oll ddiddordeb ynddynt
- Comisiynu gwasanaethau lleol a gwahanol sy'n hybu annibyniaeth a chynhwysiant a gwerth da am arian
- Datblygu a chynnal darpariaeth gynaliadwy yng Ngogledd Cymru er mwyn bodloni'r anghenion heddiw ac i'r dyfodol


**Caiff y rhain eu cefnogi gan 15 o Amcanion sydd wedi'u datgan yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.**

O gyflawni'r rhain, mae cyfanswm manteision ariannol gros disgwylidig yr ABLI yn amrywio o oddeutu £1.1m i £2m dros gyfnod 3 blynedd gydag arbedion net o £0.9m i £1.8m.



### 3. Adroddiad Cynnydd

Wrth i'r Ganolfan recriwtio ei thîm a dod yn gwbl weithredol daeth yn amlwg, er mwyn gallu bodloni'r amcanion a'r canlyniadau uchod, fod angen iddi ddatblygu ar draws pedair swyddogaeth allweddol rhyng-gysylltiedig fel y gwelir isod.



Adlewyrchir y rhain yn y rhaglen waith flynyddol ac mae'r adroddiad hwn yn awr yn ystyried pob swyddogaeth yn ei thro, gan roi manylion yr hyn a gyflawnwyd a'r meysydd sydd i'w datblygu i'r dyfodol.

## Gwerth am Arian

**Amcanion yr ABLI:** Datblygu strategaethau caffael ar gyfer gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

*Cyd-drafod gyda'r darparwyr ar ran y partneriaid er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian*

Hyd yma mae CCGC wedi sicrhau arbedion ariannol o £635,000 (ac arbedwyd £600,000 yn ychwanegol drwy waith blaenorol gyda Chartrefi Gofal Anabledd Dysgu) ac arbedwyd £171,000 pellach drwy osgoi costau (h.y. cyd-drafod y gost cyn gwneud lleoliadau). Mae'r cyfanswm o £1.2 miliwn yn gyfartal â'r hyn a nodwyd fel targed yn yr Achos Busnes (a oedd yn cynnwys yr arbedion Anabledd Dysgu blaenorol).

Yn ogystal, drwy fabwysiadu safiad rhanbarthol o gynnydd o 0% ar leoliadau uchel eu cost, mae'r partneriaid wedi arbed oddeutu £740,000 drwy osgoi costau.

Er ei bod yn anodd rhagweld arbedion yn fanwl gywir i bob partner yn y tymor byr gan fod y lleoliadau'n newid yn wythnosol, mae CCGC yn hyderus y bydd yn cyrraedd y targed 3 blynedd o £1.1 – £2m.

Er bod gwaith cynnar ar gyd-drafod ffioedd wedi sicrhau arbedion drwy ddefnyddio dulliau Cadw Cyfrifon Agored, nid oedd y dull hwn ond yn edrych ar gost lleoliadau ac ni ystyria'r ansawdd na'r canlyniad i'r defnyddwyr gwasanaethau. Felly, drwy weithio'n agos gyda'r holl bartneriaid, mae CCGC wedi bod yn datblygu dull mwy cynaliadwy o gael gwerth am arian yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau wedi'u 'haddasu i'r maint iawn'. Mae'r fethodoleg hon yn asesu'r lefel gefnogaeth a ddarperir, y canlyniadau i'r bobl sy'n byw yn y Cartref a'r ffioedd a delir er mwyn penderfynu a yw'r Cartref yn darparu Gwerth am Arian.

Er bod y dull hwn yn dal i gael ei ddatblygu, mae potensial sylweddol i sicrhau arbedion a chanfod hefyd lle y gallai defnyddwyr gwasanaethau fod yn barod i symud i leoliadau gwasanaeth mwy annibynnol. Mae'r dull hwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth ddull tebyg a ddefnyddiwyd yn ne-ddwyrain Cymru ar gyfer gwasanaethau byw â chefnogaeth. Mae CCGC hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o waith a wnaed ledled Lloegr ac yng Nghymru ar Asesiadau o Gyfleoedd (Alder, 2013)

mewn gwasanaethau anabled dysgu a bwysleisiai ar yr angen i **ganolbwyntio ar y canlyniadau ac y daw'r arbedion yn eu sgil.**

### **Astudiaeth Achos Addasu i'r Maint lawn**

Mae gan Gartref gofal *Orange* 32 o leoliadau o blith oedolion iau ag anghenion cymhleth o bob cwr o ogledd Cymru. Mae gwerth blynyddol y lleoliadau hyn yn dros £1 filiwn. Drwy Addasu i'r Maint lawn, rydym wedi dadansoddi pob lleoliad, yr anghenion, y canlyniadau a'r ffi a delir a faint o staffio 1:1 ychwanegol y telir amdano. Dangosodd hyn ein bod gyda'n gilydd yn prynu nifer sylweddol o oriau staffio am gost o £1600 yr wythnos. O ddadansoddi'r hyfforddiant a ddarparwyd i'r staff, gwelwyd nad oeddent yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i fodloni anghenion cymhleth y defnyddwyr gwasanaethau a bod hyn yn arwain at lefelau staffio uwch na'r angen. Rydym wedi dechrau trafod gyda'r darparwr i newid eu model gwasanaeth, cynyddu hyfforddiant y staff a lleihau lefel y staffio 1:1, a bydd hyn oll yn arwain at ffioedd is.

Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd dros y flwyddyn diwethaf yw'r rôl hollbwysig y mae ymarferwyr rheng flaen yn ei chwarae i ddatblygu comisiynu cynaliadwy ledled y rhanbarth. Mae gweithwyr cymdeithasol a nyrsys yn adolygu'r holl leoliadau o leiaf yn flynyddol ac mae'n bwysig rhoi mwy o her i'r broses hon fel ein bod yn sicrhau bod darparwyr yn mynd ati i alluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl a symud ymlaen i wasanaethau megis tenantiaethau â chefnogaeth lle mae ganddynt fwy o ddewis a rheolaeth pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Hyd yn oed os nad yw'r bobl yn barod eto i symud ymlaen, mae'n hanfodol ystyried a ellir gostwng lefel y gefnogaeth er mwyn hyrwyddo'u hannibyniaeth.

Mae CCGC hefyd wedi dysgu na all ddefnyddio'r un dull ar draws pob maes gwasanaeth gan fod amodau'r farchnad yn amrywio, er enghraifft, lle ceir prinder darpariaeth, saif cydbwysedd y rheolaeth gyda'r darparwyr sy'n gallu codi ffioedd uwch na phan geir mwy o ddewis yn y farchnad.

Yn olaf, bu'r tîm yn cydgasglu gwybodaeth am y ffi graidd y mae cartrefi unigolyn ei chodi, a'r hyn a gynhwysir yn y ffi hon i alluogi gwell cymharu ac asesu gwerth am arian. Ni fu'r wybodaeth hon ar gael ar raddfa ranbarthol o'r blaen.

## Cyrchu Lleoliadau

**Amcanion yr ABL:** Caffael lleoliadau a gwasanaethau a darparu gwasanaeth brocer rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas.

*Pwysu a mesur datblygu a rheoli cronfeydd data ar gyfer partneriaid o safbwynt pob gwasanaeth sydd o fewn y cwmpas*

Cyrchu Lleoliadau Unigol yw'r broses a ddilyna CCGC i gael lleoliadau newydd i bobl sydd angen cefnogaeth mewn cartref gofal sydd 'o fewn y cwmpas'. Fel rhan o'r broses hon mae cydlynwyr gofal yn anfon atgyfeiriad am leoliad newydd i CCGC yna ac mae CCGC yn darparu disgrifiad cryno o anghenion y defnyddiwr gwasanaethau gan roi manylion y canlyniadau y mae'r cartref gofal i'w cyflawni. Yna mae CCGC yn parhau'r atgyfeiriad gyda'i chronfa ddata o ddarparwyr ac yn gofyn am fynegiant o ddiddordeb gan y cartrefi gofal mewn darparu lleoliad a manylion sut y cyflawnir y canlyniadau, ac am ba gost. Yna caiff unrhyw fynegiant o ddiddordeb a ddychwelir ei archwilio o safbwynt y gost a'i anfon ymlaen at y cydlynwyr gofal i werthuso'r opsiynau, ochr yn ochr â'r defnyddiwr gwasanaethau a'i deulu. Ar ôl dewis lleoliad ffaithiol, bydd CCGC yn trafod y gost derfynol a hefyd yn darparu adborth i'r cartrefi gofal hynny nad oeddent yn llwyddiannus. Mae'r adborth hwn yn bwysig gan ei fod yn galluogi darparwyr i siapio'u gwasanaethau'n well i fodloni'r anghenion, a rhoi sylw i faterion megis cost neu ansawdd.

Ceir nifer o resymau dros fod CCGC yn ysgwyddo'r swyddogaeth brocer hon:

- Datblygu a chofnodi trosolwg rhanbarthol ar y capasiti, yr ansawdd a'r gost
- Rhyddhau capasiti cydlynwyr gofal oherwydd y gall chwilio am leoliadau gymryd llawer o amser yn y rheng flaen
- Sicrhau bod y broses o sicrhau lleoliadau yn dryloyw - mae pob Cartref Gofal yn cael yr un cyfle i fynegi diddordeb ac nid yw'n ddibynnol ar ba gartrefi y mae ymarferwyr unigol yn gyfarwydd â nhw
- Cyfle i drafod cost derfynol y lleoliad
- Galluogi datblygu'r farchnad drwy roi adborth i'r darparwyr
- Yn amlygu lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth, lle mae'n anodd cyrchu lleoliadau yn y rhanbarth gan fwydo i mewn wedyn i'r swyddogaeth comisiynu strategol.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae CCGC wedi cael 123 o atgyfeiriadau (gweler atodiad 3 am fanylion)

Bu CCGC yn datblygu ac yn cywreinio'r broses a'r gwaith papur ategol gan ddechrau gyda gwasanaethau oedolion ac yna ym Mai, derbyn atgyfeiriadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc hefyd. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Rheolwyr Caffael yng Nghyngor Sir Ddinbych i ddatblygu system eGaffael i storio'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r swyddogaeth cyrchu lleoliadau unigol.

Nid yw'r broses cyrchu lleoliadau unigol wedi gwreiddio'n llwyr ym mhob sefydliad eto, yn enwedig yng nghamau olaf y broses ac mae hyn wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i drafod y gost derfynol. Er hynny, mae'r broses ei hun yn bwysig i roi neges i'r darparwyr bod comisiynwyr yn ceisio gwerth am arian ac na fyddant yn derbyn pa bynnag ffi a ddyfynnir mwyach. Mae hefyd wedi amlygu cyfleoedd ar gyfer gweithio gydag ymarferwyr rheng flaen a darparwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r canlyniadau i bobl ag anghenion cymhleth.

Yn bwysicaf o bosibl, drwy gyrchu lleoliadau o bob cwr o'r rhanbarth, mae CCGC yn dechrau gweld lle ceir diffygion yn y gwasanaethau, nid yn unig o safbwynt y mathau o gartrefi gofal ond hefyd achosion lle ceisir lleoliadau mewn cartrefi gofal dim ond oherwydd diffyg dewisiadau amgen addas yn y gymuned megis tenantiaethau â chefnogaeth neu leoliadau maeth.

#### **Astudiaeth Achos**

Dros y flwyddyn diwethaf, mae CCGC wedi cael 10 atgyfeiriad ar gyfer pobl sydd angen llety llawr gwaelod oherwydd problemau symudedd.

Bu'n anodd cyrchu'r lleoliadau hyn ac mewn rhai achosion maent wedi arwain at fod pobl yn gorfod aros mewn lleoliadau anaddas, gan gynnwys yr ysbyty. Mae CCGC yn dechrau trafodaethau datblygu'r farchnad gyda darparwyr i roi sylw i'r mater hwn.

## Monitro ansawdd

**Amcanion yr ABLI:** Datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer monitro contractau gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas, gan ddarparu gwasanaeth uniongyrchol fel sy'n ofynnol a sicrhau bod gwybodaeth fonitro yn cael ei rhannu a'i chadw i hybu diogelu a diogelwch gwybodaeth priodol.

Bu sicrhau ansawdd lleoliadau yn un o'r blaenoriaethau allweddol i CCGC yn ei blwyddyn gyntaf yn gweithredu, yn enwedig yng ngoleuni'r sgandalau cam-drin megis y rheini yn Winterbourne View ac Ysbyty Stafford. Mae gan CCGC 3 chyfrifoldeb allweddol o safbwynt monitro ansawdd gwasanaethau:

- Arwain datblygu dull cyson a chydlynol o fonitro ledled Gogledd Cymru
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth oddi wrth amrediad eang o ffynonellau am gartrefi gofal sydd o fewn y cwmpas
- Cynnal ymweliadau monitro mewn cartrefi sydd o fewn y cwmpas ar ran rhai partneriaid (nad oes ganddynt y capasiti lleol i wneud hyn)

Mae CCGC, a'i phartneriaid, wedi datblygu fframwaith monitro seiliedig ar ganlyniadau y gellir ei ddefnyddio gyda'r holl gartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r darn pwysig hwn o waith cydweithredol yn awr yn cael ei rannu gyda darparwyr a'i dreialu, a chaiff ei adolygu mewn chwe mis. Un datblygiad pwysig i'r dyfodol yw cysoni'r fframwaith gyda'r cyfrwng monitro clinigol sy'n cael ei ddatblygu gan ein cydweithwyr ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n aelodau o'r grŵp rhanbarthol sy'n datblygu'r gwaith hwn; bu AGGCC fel y corff rheoleiddio hefyd yn aelod o'r bwrdd rhanbarthol.

Cefnogir y fframwaith gan set graidd o ddogfennau y bydd pob partner yn ei defnyddio'n gyson (er y gellid ychwanegu ati'n lleol) ynghyd â fformat adrodd cyffredin. I ategu hyn, datblygwyd Protocol Rhannu Gwybodaeth ffurfiol i alluogi'r partneriaid i fonitro ar ran ei gilydd. Mae'r darparwyr wedi croesawu'r dull cydlynol hwn i leihau dyblygu a biwrocratiaeth iddynt hwy yn ogystal ag i gyflwyno mwy o gysondeb a mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae lleihau'r dyblygu hefyd yn arwain at ryddhau capasiti yn lleol.

Mae'n bwysig sylwi bod y grŵp rhanbarthol yn awyddus i ddatblygu dull gweithredu sy'n cydnabod arferion da yn ogystal ag yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella.

Mae Swyddog Monitro Ansawdd y Ganolfan wedi monitro 21 o gartrefi'n uniongyrchol ac mae'n meithrin perthnasoedd gweithio cadarnach gyda'r darparwyr. Mae gwybodaeth drylwyr am y gwasanaethau a gafwyd o ganlyniad i fonitro hefyd yn helpu i gefnogi gwell paru drwy gyfrwng y broses cyrchu lleoliadau. Mae hefyd yn dynodi meysydd a rennir ar gyfer datblygu darparwyr sydd angen bwydo i mewn i gynllunio datblygu'r gweithlu i'r dyfodol.

Mae cydgasglu gwybodaeth yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach gan na chaiff hyn ei ddarparu i'r Ganolfan fel mater o drefn eto. Bob tro y mae gweithiwr cymdeithasol neu nyrs adolygwr yn cynnal adolygiad ffurfiol o anghenion unigolyn, disgwylir y byddant yn darparu adborth i CCGC ar a yw'r canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r unigolyn, ac yn adrodd am feysydd o ymarfer cadarnhaol neu feysydd i'w gwella. Yn ogystal, mae CCGC yn meithrin cysylltiadau gyda Swyddogion Diogelu a Chwynion a gyda grwpiau eiriolaeth a grwpiau gwirfoddol eraill i ddarparu gwybodaeth. Y gobaith yw, dros amser, y bydd y systemau hyn yn datblygu fel y gellir gweld arwyddion rhybuddio cynnar ac fel y gellir cymryd camau i osgoi mynd â phryderon i lefel uwch.

Mae CCGC yn awr yn datblygu dull tebyg ar gyfer Cartrefi Gofal i Blant a chytunwyd yn ddiweddar y bydd CCGC yn monitro'r holl gartrefi plant yng Ngogledd Cymru ar ran yr holl bartneriaid.

#### **Astudiaeth Achos**

Mae gan un sefydliad darparwyr mawr nifer o gartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Sylwodd NWCH fod problemau tebyg yn codi ym mhob un o'r Cartrefi yn ymwneud â llywodraethu a goruchwyliaeth y rheolwyr. Yn flaenorol, byddai pob sir wedi rhoi sylw i'r problemau'n annibynnol ond yn hytrach galwodd CCGC gyfarfod ar ran yr holl bartneriaid a'r cyfarwyddwr rhanbarthol dros y sefydliad er mwyn gallu rhannu'r problemau a rhoi sylw iddynt. Mae'r dull gweithredu hwn wedi arwain at gymryd camau i wella gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

Mae ymgynghorydd allanol wedi cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant y swyddogion monitro ansawdd (gan ddefnyddio cyllid grant unwaith ac am byth) ac mae hyn wedi amlygu'r cyfle i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol i ddatblygu sgiliau i'r dyfodol. Yn gysylltiedig â hyn, daeth i'r amlwg ei bod yn anodd disgwyl i un swyddog monitro feddu ar wybodaeth ddigonol i fonitro amrediad eang o wasanaethau ac y gellid bod cyfleoedd i'r dyfodol i ddatblygu dulliau gweithredu â mwy o ffocws drwy ddatblygu a rhannu sgiliau arbenigol ar draws y rhanbarth.

Ceir cynlluniau i gyflwyno Fforymau Datblygu Ymarfer i ddwyn darparwyr, comisiynwyr ac ymarferwyr rheng flaen ynghyd i ystyried a thrafod sylfaen dystiolaeth ac ymchwil yr hyn sy'n gweithio, i bwy ac ystyried esiamplau o ymarfer nodedig y gellid eu datblygu yn y rhanbarth.

Ymysg y cynlluniau i'r dyfodol hefyd y mae datblygu ffyrdd mwy arloesol o gasglu adborth o wahanol ffynonellau amrywiol, yn bwysicach na dim oddi wrth y defnyddwyr gwasanaethau eu hunain a'u teulu a'u ffrindiau.



## Comisiynu a Datblygu'r Farchnad

